Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg

1 Awst 2021 – 31 Gorffennaf 2022



Mae fersiwn Gymraeg o'r adroddiad hwn ar gael i'w lawrlwytho ar wefan y Brifysgol ac mae copïau caled Cymraeg a Saesneg ar gael mewn swyddfeydd sydd ar agor i'r cyhoedd.

Cyflwyniad

Mae'r Brifysgol yn falch o gyhoeddi ei Hadroddiad Monitro Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Awst 2021 i 31 Gorffennaf 2022. Mae'r Brifysgol yn cydnabod pwysigrwydd y Safonau, nid yn unig fel gofyniad statudol sydd wedi'i ymgorffori ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, ond fel modd o gefnogi a galluogi defnydd o'r Gymraeg yng ngwaith y Brifysgol.

Rwy'n falch bod y Brifysgol wedi parhau i wneud cynnydd gyda'i chydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg a darpariaeth y Gymraeg. Roedd yn siomedig fod y Brifysgol wedi derbyn un gŵyn ffurfiol a wnaed yn uniongyrchol i Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, er hynny, ymddengys wrth ei hadolygu fod yr achwynydd wedi camddeall ein bod yn allanoli ein gwasanaethau cyfieithu, ac nad ydym yn defnyddio ein heiriolwyr ar gyfer ein holl gyfieithiadau. Yn gadarnhaol, ni dderbyniodd y Brifysgol unrhyw gwynion anffurfiol, sy'n dyst i'n hymrwymiad i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Fodd bynnag, mae'r tîm cydymffurfiaeth wedi ymrwymo i welliant parhaus. Rydym yn parhau i fonitro, darparu cyngor ac arweiniad, nodiadau atgoffa i Staff a hyfforddiant ynghyd â'r adroddiadau rheolaidd sy'n cael eu hystyried gan Bwyllgor Monitro'r Gymraeg.

Mae ymgysylltu â'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg hefyd wedi gweld cynnydd wrth i waith pwysig barhau gyda rhaglenni newydd wedi'u dilysu sy'n ystyried y ddarpariaeth Gymraeg yn ofalus wrth ddylunio'r cwricwlwm. Mae'r Brifysgol, mewn partneriaeth â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, wedi penodi Elen Mai Nefydd fel Pennaeth Academaidd Datblygiad y Gymraeg ym mis Mai 2022. Mae'r rôl newydd hon yn golygu y bydd y Brifysgol yn canolbwyntio ar weithredu Strategaeth Academaidd Gymraeg a Chynllun Gweithredu yn ei le yn ogystal â chynnig cyfleoedd i staff ehangu eu darpariaeth ddwyieithog ac ymdrwytho myfyrwyr mewn ystod o gyfleoedd dwyieithog yn y dyfodol.

Mae hyrwyddo'r Gymraeg a Diwylliant Cymru wedi parhau hefyd gyda Newyddlen Cymraeg@Glyndŵr (sy'n ddifyr i'w darllen bob amser), blogiau ac ymadroddion yr wythnos Hyrwyddwyr y Gymraeg (am bethau megis Diwrnod Santes Dwynwen a Dydd Gŵyl Dewi). Bu i staff yn y Brifysgol lwyddo eu cymwysterau Cymraeg Gwaith, a gellir darllen mwy am y broses hon drwy flog yr ysgrifennodd aelod o staff ar fanteision dysgu'r Gymraeg yn y Gweithle.

Mae'r Eiriolwyr y Gymraeg yn parhau i gefnogi a helpu cydweithwyr (yn ychwanegol i'w swyddi o ddydd i ddydd) pe bai angen cymorth arnynt gyda darnau bach o waith cyfieithu ac mae'n dyst i'r ymrwymiad i weithio i helpu ein gilydd sydd gennym yma ym Mhrifysgol Glyndŵr Wrecsam.

Credaf fod yr adroddiad hwn yn nodi'r cynnydd rydym wedi'i wneud mewn perthynas â chydymffurfio â'r Safonau yn ystod 2021/22, gyda chynnydd da wedi'i wneud, er gwaethaf yr heriau yr ydym i gyd wedi'u hwynebu ac edrychwn ymlaen at barhau â'r gwaith cadarnhaol hwn yn ystod 2022/23.

Yr Athro Claire Taylor Dirprwy Is-ganghellor a Chadeirydd Pwyllgor Monitro'r Gymraeg

Cefndir/cyd-destun yr adroddiad

Dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae gofyn i bob corff cyhoeddus yng Nghymru gydymffurfio â dyletswyddau iaith sy'n sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r dyletswyddau yn cynnwys annog hyrwyddo'r Gymraeg ac yn gofyn bod darpariaeth Gymraeg ar gael i'r cyhoedd.

Yn unol ag Adran 44 o Fesur 2011, cyhoeddodd Comisiynydd y Gymraeg **Hysbysiad Cydymffurfio** ar 29 Medi 2017 i'r Brifysgol yn cynnwys 178 safon unigol y mae gofyn i'r Brifysgol gydymffurfio â nhw dan y themâu canlynol; darparu gwasanaethau, gweithdrefnol, llunio polisïau a chadw cofnodion.

Mae'r Safonau yn manylu ar ein cyfrifoldebau o safbwynt darparu gwasanaethau dwyieithog er mwyn sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Eu nod yw:

• egluro'n glir wrth y Brifysgol beth yw ei dyletswyddau mewn perthynas â'r Gymraeg,
• egluro'n gliriach i fyfyrwyr, staff a'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg pa wasanaethau gallant ddisgwyl eu cael drwy'r Gymraeg gan y Brifysgol
• cysoni a gwella ansawdd gwasanaethau Cymraeg.

Mae gan Gomisiynydd y Gymraeg ddyletswydd statudol i fonitro cydymffurfiaeth sefydliadau â Safonau'r Gymraeg, ac archwilio cwynion a diffyg cydymffurfiaeth. Mae gan y Comisiynydd yr hawl i bennu camau gorfodi, dyfarniadau llys sirol a dirwyon.

Mae gan y Brifysgol dudalen Polisi Iaith Gymraeg ddynodedig ar ei gwefan, a ddangosir ar y sgrinlun isod. Mae'r dudalen hon yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â chyflwyno Safonau'r Gymraeg a gallwch hefyd weld Hysbysiad Cydymffurfio'r Brifysgol yno. Yma, byddwch hefyd yn dysgu mwy am y gwasanaethau gall siaradwyr Cymraeg eu disgwyl gennym, y gwasanaethau gall myfyrwyr eu disgwyl gennym, dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (fel gofal bugeiliol, asesiadau, cyfathrebu a llety). Ar y dudalen hon hefyd mae ein Polisi Iaith Gymraeg, Canllawiau Cwynion, Adroddiadau Blynyddol a gwybodaeth gyswllt.

[Y Gymraeg ym Mhrifysgol Glyndŵr]

Monitro cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg

Fel corff cyhoeddus, mae gofyn i'r Brifysgol fod yn hunanreoleiddiol ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys monitro ein cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg a sicrhau ein bod yn cynnig digon o gyfleoedd i bawb ddefnyddio'r Gymraeg wrth weithio, astudio neu ymweld â ni.

Mae monitro cydymffurfiaeth â'r safonau yn cynnwys cyhoeddi Adroddiad Monitro Blynyddol ar y wefan allanol erbyn 31 Ionawr bob blwyddyn, i gynnwys y canlynol:

- Y ffordd mae'r Brifysgol wedi cydymffurfio â gwahanol ddosbarthiadau o safonau
- Nifer y gweithwyr sydd â sgiliau Cymraeg ar ddiwedd y flwyddyn dan sylw - Safon 158
- Nifer (a chanran os yw'n berthnasol) y gweithwyr sydd wedi mynychu hyfforddiant penodol y mae'n rhaid ei ddarparu drwy'r Gymraeg os yw ar gael yn Saesneg (yn benodol recriwtio a chyfweld; rheoli perfformiad; gweithdrefnau disgyblu a chwynion; cynefino; delio â'r cyhoedd ac iechyd a diogelwch) - Safon 159
- Nifer y swyddi gwag a newydd sydd wedi'u categoreiddio fel rhai y mae Sgiliau Cymraeg yn hanfodol, dymunol, ddim yn berthnasol ar eu cyfer neu angen eu dysgu - Safon 162
- Nifer y cwynion y mae'r Brifysgol wedi'u derbyn ynghylch pob dosbarth o'r safonau - Safon 166

Gweithredu Safonau'r Gymraeg

Llywodraethu Pwyllgor Monitro'r Iaith Gymraeg

Sefydlwyd y pwyllgor hwn gan y Dirprwy Is-ganghellor ym mis Awst 2018 (yn dilyn terfynu'r Grŵp Monitro'r Iaith Gymraeg anffurfiol blaenorol). Mae'n cynnwys aelodau

o'r uwch dîm rheoli a staff gweithredol ar lefel briodol, mae'n bwyllgor ymgynghorol nad oes ganddo bwerau gwneud penderfyniadau dirprwyedig ac mae'n is-bwyllgor i Dîm Gweithredol yr Is-ganghellor. Mae gan y Dirprwy Is-Ganghellor arweinyddiaeth strategol ar gyfer Safonau'r Gymraeg o safbwynt cydymffurfio ac iaith. Bodlonir gweithrediad o ddydd i ddydd y ddarpariaeth Gymraeg gan y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gwasanaethau Myfyrwyr a Hyrwyddwr Iaith Gymraeg y Brifysgol. Bodlonir gweithrediad o ddydd i ddydd cydymffurfiaeth â'r Gymraeg gan Gyfreithiwr y Brifysgol a'r Uwch Swyddog Cydymffurfio. Yr Is-ganghellor sy'n gyfrifol yn y pen draw am gydymffurfiaeth y Brifysgol â safonau'r Gymraeg.

Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod pedair gwaith bob blwyddyn Academaidd yn unol â'i Gylch Gorchwyl.

Adolygir yr Adroddiad Blynyddol hwn gan y pwyllgorau canlynol o fewn y Brifysgol y mae eu Cylch Gorchwyl yn cynnwys gofyniad i fonitro cydymffurfiad y Brifysgol â Safonau'r Gymraeg:

- *Pwyllgor Monitro'r Iaith Gymraeg*
- *Tîm Gweithredol yr Is-ganghellor*
- *Pwyllgor Adnoddau Dynol y Bwrdd*

Rôl a swyddogaeth y pwyllgor hwn yw cefnogi a hwyluso cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg ledled y Brifysgol fel y manylir isod:

1. **Polisïau a Gweithdrefnau** - Sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau perthnasol yn cael eu sefydlu er mwyn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaethau perthnasol, wrth fonitro gweithredu a sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau o'r fath yn cael eu diweddaru'n rheolaidd.

2. **Rheoli Risg** - Goruchwylio'r gwaith o weithredu strategaethau/polisïau sy'n gysylltiedig â deddfwriaeth a monitro cydymffurfiaeth yn erbyn deddfwriaeth o'r fath. Sicrhau bod y Brifysgol yn cadw cofnodion ac yn adrodd yn briodol ac yn brydlon yn ôl y gofyn yn unol â Hysbysiad Cydymffurfio'r Brifysgol.

3. **Arfer** - Hyrwyddo a magu diwylliant o wella ansawdd a rhannu arfer dda mewn perthynas â'r Gymraeg; sicrhau bod gwybodaeth o ansawdd uchel ar gael wrth ddarparu gwasanaeth ynghyd ag unrhyw arweiniad a chefnogaeth, a helpu i ddarparu eglurder ynghylch dehongli Safonau perthnasol a sut all arferion y Brifysgol gydymffurfio.

4. **Cyfathrebu a datblygiad staff -** Datblygu a goruchwylio'r gwaith o weithredu'r rhaglen gyfathrebu a hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth o fewn y Brifysgol, a gydag eraill fel bo'n briodol, ynglŷn â phob agwedd o'r Gymraeg, cynnig cyngor priodol mewn ymateb i ddigwyddiadau ac achosion a chefnogi staff i ddatblygu'r

sgiliau ac ymddygiad sydd eu hangen er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.

5. **Cwynion-** Derbyn adroddiadau, a gwneud argymhellion ar gamau gweithredu, dilyn trywydd unrhyw gwynion (gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i Safonau'r Gymraeg) a lle bo'n briodol, ymgymryd â chamau gweithredu adferol neu eu hargymell, a monitro'r camau hyn a gymerwyd.

Darpariaeth y Gymraeg

Yn ystod haf 2021, cytunodd y Brifysgol a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol bod angen dull newydd i wrthdroi dirywiad yn narpariaeth y Gymraeg, fel y cofnodwyd drwy fetrig Llywodraeth Cymru o'r rhai sy'n astudio 5 o gredydau neu fwy, a'r rhai sy'n astudio 40 credyd neu fwy ac yn fwy cyffredinol. Roedd angen dull newydd.

1. Sefydlu uwch swydd newydd a llawn amser, i arwain trawsnewid darpariaeth academaidd cyfrwng Cymraeg

    a. Penodwyd Elen Mai Nefydd i'r swydd ddiwedd Awst 2022, yn dilyn proses recriwtio a oedd yn cynnwys Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, a oedd yn dod â chryn brofiad fel uwch academydd a rhywun sy'n uchel ei pharch o fewn y gymuned academaidd Gymraeg.
    b. Mae aelodaeth y Bwrdd Academaidd a'r Pwyllgor Ansawdd Dysgu ac Addysg yn cael ei ehangu i gynnwys y swydd hon.

2. Datblygiad Strategaeth newydd ar gyfer darpariaeth academaidd cyfrwng Cymraeg

    a. Mae gwaith wedi dechrau a bydd yn cael ei arwain gan y Pennaeth newydd, yn cynnwys y Tîm Datblygiad Academaidd Cymraeg, cydweithwyr eraill a'r YCCC.
    b. Mae gwaith a chamau gweithredu sydd wedi'u mewngorffori yn y Strategaeth, a'i Chynllun Gweithredu, eisoes wedi dechrau gan gynnwys:
        i. Cynlluniau yn cael eu datblygu i hyrwyddo'r cymhwyster Sgiliau Iaith ar gyfer bob myfyriwr newydd a phresennol ym mis Medi- gwneir hyn drwy'r broses gynefino. Gan roi'r cyflwyniad eto i bob myfyriwr Lefel 5 a 6 sy'n dychwelyd yn y flwyddyn academaidd newydd- gan gysylltu â Chyfadrannau.
        ii. Hyrwyddo a pharhau â Cymraeg Gwaith- mae gwaith ar y gweill i ddatblygu'r gwaith hwn i fodiwlau yn PWG.
        iii. Cynnig llwybrau newydd i fyfyrwyr ddysgu'r Gymraeg yn ystod eu hastudiaethau drwy fodiwlau- Cymraeg yn y Gweithle 1 a 2. Mae'r rhain yn fodiwlau 20 credyd yn ychwanegol at eu hastudiaethau yn y Brifysgol.
        iv. Mynychu Bwrdd Academaidd Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a chyfrannu ato.

v. Cyflwyniadau a gweithdai wedi'u cynnal yng Nghynhadledd Ymgysylltu â Staff mis Medi yn 2022.
vi. Llyfr Moodle Cymraeg wedi'i gynnwys yng nghwrs Byr Cynefino myfyrwyr.
vii. Cyflwynodd y Pennaeth Academaidd Datblygiad Y Gymraeg sgyrsiau yn ystod wythnos gynefino ac yn ystod wythnosau cyntaf y semester- yn amlinellu'r cyfleoedd i fyfyrwyr wneud y cymhwyster Sgiliau Iaith a dod yn aelod cangen o'r Coleg. Cafwyd stondin y Gymraeg a baner yn Ffair y Glas, a chafodd fyfyrwyr gyfle i ddysgu mwy am y mentrau newydd.
viii.

Er gwaethaf yr heriau niferus yr ydym wedi'u hwynebu, mae'r Brifysgol wedi parhau i wneud cynnydd ac mae gwaith pwysig wedi parhau gyda rhaglenni newydd wedi'u dilysu sy'n ystyried y ddarpariaeth Gymraeg yn ofalus wrth ddylunio'r cwricwlwm trwy brosesau Ffurflen Arfaethedig Gychwynnol ('IPPF'), Cefnogi Dull Holistaidd at Wella Rhaglen ('SHAPE') a Chydweithrediad ar gyfer Adolygu a Gwella Rhagoriaeth Addysgu ac Asesu ('CREATE') yn y Brifysgol. Mae'r prosesau hyn yn parhau i ofyn i raglenni arddangos y ffordd y byddant yn ystyried defnyddio'r Gymraeg wrth ddylunio cwricwlwm eu rhaglen. Gofynnir i raglenni newydd ystyried yn ofalus cynnig cyfleoedd i fyfyrwyr astudio unrhyw agwedd ar y cwricwlwm y dymunant yn Gymraeg yn ogystal â chynnig cyfle iddynt gael tiwtor personol Cymraeg, cyflwyno gwaith yn Gymraeg ac ennill profiad yn y diwydiant drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn 2022, cyflwynodd y Pennaeth Academaidd Datblygiad y Gymraeg newidiadau i wella'r gweithdrefnau SHAPE a CREATE, drwy ofyn i raglenni ddangos tystiolaeth o'u darpariaeth cyfrwng Cymraeg o'r broses gychwynnol IPPF, SHAPE, CREATE ac i'r digwyddiadau dilysu terfynol.

Ers 2020, mae'r Brifysgol wedi gallu gweithio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gynnig cyfleoedd i fyfyrwyr i astudio'r Dystysgrif Sgiliau Iaith i'w myfyrwyr Cymraeg eu hiaith. Yn ystod y pandemig, roedd y niferoedd a oedd yn gwneud y dystysgrif yn y Brifysgol yn isel, ond rhagwelir y bydd fwyfwy o fyfyrwyr Cymraeg iaith gyntaf yn cofrestru am y cymhwyster yn 2022/23.

Mae'r dystysgrif yn agored i unrhyw fyfyriwr sy'n astudio mewn prifysgol yng Nghymru. Mae wedi'i datblygu i alluogi myfyrwyr prifysgol i ennill cymhwyster CBAC sy'n dystiolaeth o'u sgiliau iaith, a'u gallu i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r dystysgrif yn dystiolaeth o'u sgiliau iaith, a'u gallu i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r dystysgrif yn dystiolaeth o allu myfyrwyr i gyfathrebu'n hyderus a phroffesiynol, ar lafar ac yn ysgrifenedig gan ddefnyddio'r iaith.

Dyfarnwyd y dystysgrif am y tro cyntaf yn 2013, a hyd yn hyn mae dros 800 o fyfyrwyr wedi'i chwblhau, a bellach caiff ei chydnabod gan nifer o gyflogwyr fel cymhwyster achrededig.

Bydd cofrestru yn dechrau ym mis Medi 2022 ac yn cau ar 1 Tachwedd.

Mae gan staff y cyfle i ddysgu Cymraeg gyda'r cyrsiau canlynol yn cael eu cynnal yn wythnosol ar-lein:

Cyrsiau Lefel Mynediad

Cynhelir bob dydd Llun gan ddefnyddio dull cyfunol drwy gynnig sesiynau ar y campws ac ar-lein ar Microsoft Teams. Mae hwn yn gwrs i ddechreuwyr lle maent yn dysgu siarad am weithgareddau bob dydd fel eu gwaith, teulu a ffrindiau a diddordebau.

Cwrs Lefel Sylfaen

Cynhelir bob dydd Mawrth gan ddefnyddio dull cyfunol drwy gynnig sesiynau ar y campws ac ar-lein ar Microsoft Teams. Mae'r cwrs hwn yn arbennig ar gyfer y rhai sydd wedi cwblhau cwrs Lefel Mynediad a'i nod yw dysgu holl batrymau sylfaenol y Gymraeg.

Cymraeg yn y Gweithle

Lansiwyd modiwlau 20 credyd i'r holl fyfyrwyr ym mis Medi 2022 i'r rhai sy'n dymuno dysgu'r iaith neu ar gyfer y rhai sydd ag ychydig o wybodaeth am yr iaith, ac sydd eisiau datblygu eu sgiliau. Mae 30 o fyfyrwyr wedi cofrestru ar y llwybrau hyn.

Tîm Datblygiad Academaidd darpariaeth cyfrwng Cymraeg

Dan arweinyddiaeth yr Athro Claire Taylor, Dirprwy Is-Ganghellor, mae'r tîm Datblygiad Academaidd yn canolbwyntio ar feysydd o welliant academaidd yn y Brifysgol. Elen Mai Nefydd sydd wedi bod yn gyfrifol am arwain y grŵp darpariaeth cyfrwng Cymraeg o'r TDA, ac o ganlyniad i waith y grŵp, cynhaliwyd digwyddiad cydweithredol rhwng y Brifysgol a Choleg Cambria yng Ngholeg Cambria ym mis Medi 2022.

Rhoddodd Llinos Roberts, Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol a'r Gymraeg yng Ngholeg Cambria ac Elen Mai Nefydd Pennaeth Academaidd Datblygiad y Gymraeg, drosolwg o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg presennol yn y ddau sefydliad.

Siaradodd Karen Rhys Jones am y datblygiadau Cymraeg yn y rhaglen Addysg QTS PGW, a bu i'r tîm gwaith cymdeithasol yng Nghambria siarad am y modd roeddent wedi gweithredu Cymraeg yn eu darpariaeth a'u cymwysterau. Cynhaliwyd grwpiau ffocws hefyd yn seiliedig ar y thema codi hyder myfyrwyr yn y Gymraeg ar lefel academaidd a chymdeithasol.

Diwrnodau Agored yn PGW

Ers Mai 2022, mae cefnogaeth cyfrwng Cymraeg ar gael mewn diwrnodau Agored yn y Brifysgol, ac mae Pennaeth Academaidd Datblygiad y Gymraeg wedi bod yn gweithio i recriwtio tîm i baratoi ar gyfer ymgeiswyr arfaethedig Cymraeg eu hiaith a'u teuluoedd yn ystod y diwrnodau Agored. Mae'r faner Gymraeg wedi'i lleoli yn awr yn y prif gyntedd yn ystod
Diwrnodau Agored, ac mae gwybodaeth am gyfleoedd a darpariaeth Gymraeg ar gael i bawb sydd â diddordeb.

Arweinyddiaeth sector

Ers 2020/21 (ac yn parhau nes 2023) roedd y Dirprwy Is-Ganghellor ar ran Prifysgol Glyndŵr Wrecsam yn gweithredu fel awdur ac arweinydd ar gyfer prosiect Adfer ac Arloesi Addysg Uwch yr HEFCW, 'Cynnal a gwella dysgu digidol ar draws Cymru'. Cafodd £2.7m ei diogelu i'w ddefnyddio ar draws partneriaeth o wyth prifysgol, y Brifysgol Agored (Cymru), Coleg Cymraeg Cenedlaethol, y QAA a NUS Wales. O fewn y gyllideb, dyrannwyd £420k i'r Coleg i ddatblygu a darparu deunyddiau dysgu cyfunol cyfrwng Cymraeg o ansawdd uchel. O ganlyniad, datblygwyd deunyddiau digidol ar gyfer darparu darpariaeth myfyrwyr ar ffurf dysgu anghydamserol o bell ar draws Astudiaethau Busnes, y Gyfraith, Gwyddorau Cymdeithasol, Gwyddor Chwaraeon a Seicoleg. Mae'r Deunyddiau Dysgu Digidol wedi cael eu rhoi gyda'i gilydd ar lefel uned a themâu gan ddefnyddio meddalwedd SCORN, ar y Porth (llyfrgell adnoddau digidol y Coleg) fel adnoddau hunangynhwysol. Bydd holl elfennau pob uned ar gael yn rhwydd i staff ar draws y sector. Gan fod pob prifysgol yng Nghymru wedi cymryd rhan yn y prosiect, gyda dros 50 o staff academaidd yn cyfrannu at y cynnwys ar gyfer 140+ o unedau ar draws 6 pwnc, mae'r deunyddiau a gynhyrchwyd yn ychwanegiadau defnyddiol a gwerthfawr iawn i'r corff o adnoddau dysgu cyfrwng Cymraeg.

Llinyn arall o brosiect a arweinir gan Glyndŵr oedd Adolygiad Thematig o Ddysgu Digidol ledled Cymru a gynhaliwyd gan y QAA. Roedd hyn hefyd yn cynnwys adnabod arferion da o ran cyfrwng Cymraeg ar draws pob prifysgol. Mae'r Dirprwy Is-Ganghellor yn parhau i arwain ar osod y gwaith hwn ar draws y sector, gan weithio

gydag aelodau o rwydwaith Dysgu ac Addysgu Prifysgolion Cymru i ddatblygu Cynllun Gwella Dysgu Digidol 2021-23, gan gynnwys elfen cyfrwng Cymraeg.

Cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg

Cyfrifoldeb yr Uwch Swyddog Cydymffurfio sy'n atebol i Gyfreithiwr y Brifysgol yw rheoli risg, ymdrin â chwynion, hysbysiadau gorfodi, polisïau a gweithdrefnau yn unol â Safonau'r Gymraeg. Mae Cyfreithiwr y Brifysgol yn aelod o Bwyllgor Monitro'r Iaith Gymraeg ac mae'r Uwch Swyddog Cydymffurfio yn Glerc i'r pwyllgor hwn. Mae'r uwch swyddog cydymffurfio yn parhau i fonitro ac adolygu'r safonau hyn, ac yn parhau â'r broses thematig. Mae'r Brifysgol wedi diweddaru ei harweiniad cyfryngau cymdeithasol (safon rhif 62) i'r holl staff, ac wedi darparu sgriptiau wedi'u diweddaru i staff y rheng flaen (safon rhif 8-22). Rydym yn parhau i gynnal:

- Hapwiriadau ledled y campws ar-lein ac yn rhithiol, ac os nodir bod unrhyw beth angen ei wella, cynghorir yr adran i fynd i'r afael ag o yn gyflym. Mae themâu'r hapwiriadau a nodir yn cael eu cyfleu i'r Holl Staff yn y Newyddlen Cymraeg@Glyndŵr gydag erthyglau canllaw yn Campus Talk a'u hadrodd i Bwyllgor Monitro'r Gymraeg
- Parhau i weithio drwy ein Cynllun Gwella i ategu'r llwyddiannau hyd yn hyn ymhellach
- Delio â chwynion ffurfiol ac anffurfiol
- Diweddariadau i dudalennau'r fewnrwyd
- Cefnogi mentrau Hyrwyddwr y Gymraeg

Gwasanaethau Cyfieithu Cymraeg

Mae'r Brifysgol yn allanoli ei wasanaethau cyfieithu ac mae yn y broses o adolygu ei phrosesau caffael ar gyfer gwasanaethau cyfieithu Cymraeg.

Mae gan y Brifysgol swydd sydd wedi'i neilltuo i gefnogi cyfathrebu corfforaethol dwyieithog, gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol.
Yn ogystal â'r uchod, mae ein haelodau o staff sy'n siarad Cymraeg yn cefnogi cydweithwyr, lle bo'n bosibl, pan fo angen darnau bach o waith cyfieithu, mae rhai hefyd wedi ffurfioli hyn trwy wirfoddoli i fod yn Eiriolwr y Gymraeg. Ar gyfer darnau mwy o waith neu gyfieithiadau brys, mae'r gwaith yn cael ei anfon yn allanol gyda chyfrifoldeb wedi'i ddatganoli i ganolfannau cyllideb. Mae effeithiolrwydd gwariant y Brifysgol ar gyfieithu allanol yn dal i gael ei adolygu a chaiff y canfyddiadau eu hadrodd i Bwyllgor Monitro'r Gymraeg. Bydd trafodaethau ac ystyriaethau yn parhau i gael eu cynnal o ran gofynion y dyfodol i'r Brifysgol.

Swyddi a Sgiliau Cymraeg

Mae'r tabl isod yn dangos cymhariaeth â nifer y swyddi newydd a gwag a hysbysebwyd yn ystod y cyfnod hwn ac adroddiadau'r flwyddyn flaenorol, wedi'u categoreiddio yn unol â'r gofynion o ran sgiliau Cymraeg.

Fel yr amlinellwyd yn adroddiad y llynedd, mae'r nifer o ymgeiswyr ar gyfer swyddi lle mae'r Gymraeg yn cael ei hystyried yn hanfodol yn siomedig o hyd. Codwyd yr her hon yn y Pwyllgor Monitro'r Iaith Gymraeg a gofynnwyd am arweiniad gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.

Meini Prawf	01.08.19 - 31.07.20	01.08.20- 31.07.21	01.08.21- 31.07.22
Cymraeg Hanfodol	4	2	7
Cymraeg Dymunol	119	116	198
Dim angen y Gymraeg	0	0	0

Yn eu sesiwn gynefino, cynghorir ac anogir staff newydd y Brifysgol bod cyrsiau Cymraeg am ddim ar gael iddynt eu mynychu.

Hyrwyddo'r Gymraeg a'i Diwylliant yn Weithredol

Mae gwaith hyrwyddo mewnol yn cael ei wneud trwy'r fewnrwyd staff, y porth newyddion mewnol (Campus Talk), sesiynau cynefino i staff newydd a'r Cylchlythyr.

Dydd Gŵyl Dewi

Ymunodd yr Is-ganghellor a staff ag aelodau o'r gymuned a sefydliadau lleol yng Ngorymdaith Dydd Gŵyl Dewi Wrecsam eleni.

Bore Coffi Macmillan 2022

Cynhaliodd Undeb y Myfyrwyr ym Mhrifysgol Glyndŵr bore coffi ym mis Medi i godi arian i Macmillan. Roedd Elen Mai Nefydd wrth law i siarad â staff a myfyrwyr am gyfleoedd dysgu cyfrwng Cymraeg a chaniatáu i gyfranogwyr ddysgu rhai ymadroddion pobi Cymraeg. Dangoswyd fideos, cerddoriaeth a chlipiau o'r Eisteddfod Genedlaethol ar y sgrîn fawr yn ystod y bore coffi.

Newyddlen Cymraeg@Glyndŵr

Mae'n gyhoeddiad dwywaith y flwyddyn, sydd ar gael yn Gymraeg a Saesneg, sy'n cael ei greu gan yr Uwch Swyddog Cydymffurfio yn llawn newyddion, diweddariadau, cwisiau, chwileiriau a ffeithiau difyr i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i staff ynglŷn â Cymraeg@Glyndŵr a thraddodiadau Cymreig. Fe wnaethant gwblhau ein chweched rhifyn yn haf 2022. Roedd rhifyn yr haf yn cynnwys darn am Gastell Penrhyn a oedd ag arddangosfa yn bwrpasol ar gyfer darnau yn gysylltiedig â gorffennol dadleuol y castell, megis dogfennau yn ymwneud â phlanhigfeydd siwgr Jamaica a oedd ym mherchnogaeth y teulu Pennant (cyn-berchnogion Castell Penrhyn), a gwrthrychau a gasglwyd o'r Dwyrain Canol. Mae'r arddangosfa ar fin gorffen yn gynnar ym mis Tachwedd 2022.

Rhifyn 6

YMDDIRIEDOLAETH GENEDLAETHOL- ANRHY DE DDU TRE F T ADAE T H

Arddangosfa 'What a World' yng Nghastell Penrhyn, Gogledd Cymru.

'Dyluniwyd yr arddangosfa er mwyn rhoi'r ardal leol yng nghyd-destun hanes trefedigaethol a byd-eang, ac mae wedi bod yn ddechrau gwych i drafodaethau yma ym Mhenrhyn. Bydd yn cael ei arddangos nes dechrau mis Tachwedd, ac yna bydd yn cael ei dynnu i lawr, felly anogwch bobl i ddod y tymor hwn.

Mae rhai datblygiadau wedi bod ers ei sefydlu yn 2020, sef, gosod dehongliad arall '**Haenau**' mis Mai eleni, sy'n tynnu sylw at eitemau ac ardaloedd sy'n cysylltu'r castell â'i hanes lleol gyda'r diwydiant llechi a chymunedau lleol. Mae'r ddwy arddangosfa yn gweithio gyda'i gilydd i ddweud hanes ehangach y castell, gyda'r dodrefn a cheginau Fictoraidd sy'n adrodd eu hanes eu hunain.

Wrth symud ymlaen, rydym eisiau gweu'r straeon hyn gyda'i gilydd yn barhaus.

Yn ogystal â hyn, gellir gweld yr arddangosfa yn ei chyfanrwydd am y tro cyntaf eleni gan fod mwy o'r castell wedi cael ei agor yn dilyn y cyfnodau clo. (Er hynny, rydym yn dal yn ddibynnol ar gapasiti gwirfoddolwyr). Mae tywyswyr ein castell mor bwysig er mwyn cael sgyrsiau am hyn, ac unrhyw arddangosfeydd eraill bydd gennym o bosibl, os oes rhywun yn cael eu hysbrydoli i wirfoddoli ym Mhenrhyn, gellir cael gwybodaeth bellach ar **myvolunteering** – Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Cyhoeddir y newyddlen ar y fewnrwyd staff ac mae'r nifer yr ymweliadau unigol â'r rhifynnau Cymraeg a Saesneg yn cael eu cofnodi a'u hadrodd i'r Pwyllgor Monitro Iaith Gymraeg, i fonitro ymgysylltiad a thrafod cyfleoedd i hyrwyddo. Mae nifer yr ymweliadau â phob rhifyn a dewis iaith isod:

Tudalen Gymraeg

Rhifyn Gyntaf (Rhagfyr 2019)	**12**
Ail Rifyn (Haf 2020)	**23**
Trydydd Rhifyn (Rhagfyr 2020)	**5**
Pedwerydd Rhifyn (Haf 2021)	**10**
Pumed Rhifyn (Rhagfyr 2021)	**22**
Chweched Rhifyn (Haf) 2022	**5**

Tudalen Saesneg

Rhifyn Gyntaf (Rhagfyr 2019)	**39**
Ail Rifyn (Haf 2020)	**50**
Trydydd Rhifyn (Rhagfyr 2020)	**24**
Pedwerydd Rhifyn (Haf 2021)	**38**
Pumed Rhifyn (Rhagfyr 2021)	**81**
Chweched Rhifyn (Haf 2022)	**104**

Cymuned Gymreig y Brifysgol

Fel Prifysgol sy'n falch o fod yng Nghymru, ac o ofalu am ei buddiannau, rydym yn gweithio'n galed i gefnogi'r anghenion cymdeithasol, busnes, cyhoeddus a chymunedol, lleol gwahanol. Un agwedd yr ydym wedi bod yn ceisio ei gwella yn ddiweddar yw sut ydym yn defnyddio'r Gymraeg yn fwy effeithiol yn ein gwaith gyda'r cymunedau hyn. Er ein bod wedi ehangu'n sylweddol y ddarpariaeth o gyfleoedd addysgu a dysgu cyfrwng Cymraeg o fewn y Brifysgol yn ogystal â'r defnydd o'r Gymraeg yn ein cyfathrebu allanol, roeddem yn awyddus i wneud mwy a sicrhau bod yr hyn a wnawn yn gweithio.

Penderfynasom y byddai'n syniad da gwahodd pobl yr ydym yn eu hystyried yn 'gyfeillion' i'r Brifysgol i ymuno â grŵp cynghori anffurfiol, dan arweiniad ein His-ganghellor, maent yn cynnwys; Cymrodyr Prifysgol, Gweinidog lleol, cyfieithydd, cynrychiolydd o'r Fenter Iaith, aelod o'n cymuned. Mae staff o dîm Undeb Myfyrwyr, Cyfadrannau a Chyfathrebu yn ymuno hefyd.

Cymraeg Gwaith

Atgoffir staff ym mis Medi 2022 mewn sgyrsiau campws bod bathodynnau a laniardau ar gael iddynt yn y dderbynfa**.**

Cynlluniau i ail-lansio COFFI A CHLONC yng Nghynhadledd Ymgysylltu â staff 2022/23.

Ar ôl egwyl fer, bydd Coffi a Chlonc yn cael ei ail-lansio yng nghynhadledd ymgysylltu â staff yn 2022. Mae'r ymgyrch hon bob amser yn cael ei chroesawu gan staff, a'r gobaith yw caniatáu aelodau eraill o staff i arwain sesiynau yn y dyfodol fel y gall staff ymarfer eu Cymraeg mewn awyrgylch diogel a chaniatáu i siaradwyr Cymraeg ddod at ei gilydd dros baned.

Nifer yr ymwelwyr â'r tudalennau gwe Cymraeg a Saesneg





Mae'r Brifysgol wedi derbyn amrywiaeth o adborth cadarnhaol gan randdeiliaid ynghylch safon ei thudalennau gwe, mae'r tabl isod yn dangos cymhariaeth rhwng ymweliadau â'n tudalennau gwe yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn ac adroddiadau blaenorol.

Y tudalennau mwyaf poblogaidd yr edrychir arnynt yw rhai sy'n dangos gwybodaeth i fyfyrwyr megis ein cyrsiau israddedig ac ôl-raddedig, ffioedd a chyllid a digwyddiadau agored. Gwelwyd cynnydd mewn ymweliadau â'r tudalen sy'n rhestru ein cyrsiau byr a'r tudalennau gyda manylion am ein hymgyrch farchnata Byddwch yn Rhan Ohono.

	Gwefan Gymraeg	Gwefan Saesneg
Ymweliadau unigol â thudalennau		
01.08.18 - 31.07.19	8,582	1,103,631
01.08.19 - 31.07.20	14,618	1,439,524
01.08.20 – 31.07.21	12,190	1,781,900
01.08.21-31.07.22	13,042	2,114,891
Y gwahaniaeth o'i gymharu ag adroddiad y llynedd +/-	852 +6.98%	332,991 +18.68%
Amser cyfartalog ar y dudalen		
01.08.18 - 31.07.19	1m 48e	1m 18e
01.08.19 - 31.07.20	2m 03e	1m 20e
01.08.20 – 31.07.21	1m 38e	1m 20e
01.08.21 - 31.07.22	1m 59e	1m 38e
Y gwahaniaeth o'i gymharu ag adroddiad y llynedd +/-	21e- +15%	18e +15%

Bu cynnydd cadarnhaol hefyd mewn ymweliadau â thudalen wybodaeth benodol y Gymraeg ar ein gwefannau:

	Tudalen Gymraeg ar y Wefan	Tudalen Saesneg ar y Wefan
Ymweliadau unigol â thudalennau		
01.08.19 – 31.07.20	18	70
01.08.20 – 31.07.21	43	149
01.08.21 – 31.07.22	119	855
Gwahaniaeth +/-	**76 +176%**	**706 +473%**

Nifer y staff sydd â sgiliau Cymraeg

Bu i'r Brifysgol roi System Adnoddau Dynol newydd ar waith ym mis Awst 2022. Aeth y modiwl Hunanwasanaeth i Gyflogeion yn fyw ym mis Hydref 2022 ac mae'r mwyafrif o'r cyflogeion bellach wedi'u hyfforddi i allu defnyddio'r Hunanwasanaeth i Gyflogeion. Bydd yr adran Adnoddau Dynol yn cynnal arolwg gyda'r holl staff yn 2022/2023 i gasglu gwybodaeth ar sgiliau'r iaith Gymraeg. Bydd y defnydd o'r system Adnoddau Dynol Newydd yn galluogi'r Brifysgol i gasglu'r wybodaeth hon bob blwyddyn. Bydd canlyniadau'r arolwg ar gyfer 2022/2023 ar gael erbyn diwedd y Flwyddyn Academaidd.

Hyfforddiant a chyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg

Ar hyn o bryd, mae hyfforddiant ar gael yn Gymraeg ar gais, ac fe'i hyrwyddir pan fo sesiynau yn cael eu hysbysebu, er hynny, hyd yn hyn nid oes cais wedi dod i law am hyfforddiant yn Gymraeg eto. Ar hyn o bryd, oherwydd adnoddau, nid yw hyfforddiant yn cael ei ddarparu yn Gymraeg a Saesneg yn awtomatig, fodd bynnag, pe bai gweithiwr yn gwneud cais am hyn, byddai fersiwn Gymraeg o'r hyfforddiant ar gael pe bai'n un o'r meysydd cydymffurfiaeth statudol. Hyd yma, nid yw'r adran wedi cael cais i gyflwyno yn Gymraeg. Mae sesiwn gynefino gweithwyr yn cynnwys sesiwn ar Safonau'r Gymraeg. Pe bai gweithiwr newydd yn gwneud cais i wneud y broses gynefino yn Gymraeg, byddai'r adran Adnoddau Dynol yn gallu darparu hyn.

Cwynion a wnaed yn uniongyrchol i'r Brifysgol o ran Safonau'r Gymraeg

Mae'r Brifysgol yn croesawu ac yn annog adborth gan aelodau'r cyhoedd, ei staff a myfyrwyr sy'n dymuno codi ymwybyddiaeth am unrhyw gamgymeriadau maent yn sylwi arnynt o ran cydymffurfiaeth y Brifysgol â Safonau'r Gymraeg. Wrth dderbyn y gŵyn yn uniongyrchol, yn anffurfiol neu'n ffurfiol, mae'n caniatáu ymchwilio i'r mater, ei gywiro yn ôl yr angen ac ymateb yn gyflym i'r achwynydd.

Mae'r tabl isod yn dangos categorïau'r safonau y mae'r cwynion yn ymwneud â nhw yn ystod y cyfnodau adolygu a nodir er cymhariaeth:

Grŵp Safonau	01.08.19 - 31.07.20	01.08.20- 31.07.21	01.08.21- 31.07.22
Safonau cyflenwi gwasanaeth	6	0	**1**
Safonau llunio polisi	0	0	**0**
Safonau gweithredol	**0**	**0**	**0**

Derbyniodd y Brifysgol un gŵyn ffurfiol gan aelod o'r cyhoedd drwy law Comisiynydd y Gymraeg ym mis Chwefror 2022. Roedd y gŵyn yn ymwneud â *'cynlluniau cyfredol annigonol ar gyfer cefnogi a chydymffurfio â darpariaethau Cymraeg yn y Brifysgol, a bu i hyn arwain at ormod o bwysau a chynnydd yn y gwaith ar gyfer staff Cymraeg eu hiaith'.* Ymatebodd y Brifysgol i'r gŵyn drwy ddweud ein bod yn allanoli holl wasanaethau cyfieithu Cymraeg, a bod gennym wirfoddolwyr sy'n eiriolwyr Cymraeg fyddai'n cyfieithu brawddegau byr neu eiriau ar gyfer cydweithwyr os yw amser yn caniatáu. Cymerodd Comisiynydd y Gymraeg y penderfyniad i beidio â chynnal ymchwiliad statudol o dan adran 71 Mesur y Gymraeg gan nad oedd yr achwynydd wedi cyflwyno tystiolaeth o fethiant i gydymffurfio ag unrhyw safon benodol, daethpwyd i'r casgliad bod yr achwynydd yn amlygu risg o ddiffyg cydymffurfio posibl yn y dyfodol. Felly, nid oedd yn ofynnol i'r brifysgol gymryd unrhyw gamau pellach.

Archwiliadau ar Hap Mewnol

Mae gan y Brifysgol fecanwaith rheoli mewnol yn ei le, ble mae'r Uwch Swyddog Cydymffurfio yn cynnal archwiliadau ar hap (y tu mewn a'r tu allan) ac yn hysbysu cydweithwyr priodol o fewn adrannau am unrhyw broblemau a welir er mwyn gallu eu cywiro. Caiff manylion y rhain a'r camau gweithredu a gymerwyd i fynd i'r afael â nhw eu hadrodd i Bwyllgor Monitro'r Gymraeg.

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, nodwyd y themâu canlynol a thynnwyd sylw cydweithwyr atynt:

- Cyfrifon cyfryngau cymdeithasol heb eu cysylltu'n gywir
- Ymatebion awtomatig allan o'r swyddfa - gyda thestun Saesneg yn unig neu nid oedd y testun Cymraeg yn cyfateb i'r Saesneg ar y neges.

Diolch am gymryd yr amser i ddarllen yr Adroddiad Blynyddol hwn, a gyhoeddir ar wefan y Brifysgol ac mae copi caled ar gael mewn swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu ymholiadau'n ymwneud â'r adroddiad, anfonwch nhw i: cydymffurfiocymraeg@glyndwr.ac.uk